

cta

community transport
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL

Cymdeithas Cludiant Cymunedol

Pecyn Gwybodaeth Recriwtio Ymddiriedolwyr

2019



Cyflwyniad

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr y Gymdeithas Cludiant Cymunedol. Yn y pecyn hwn fe gewch wybodaeth am CTA, rôl ymddiriedolwr CTA a manylion y broses recriwtio.

Mae llawer o ffyrdd i bobl o'r mudiadau sy'n aelodau o CTA ymwneud â bywyd y gymdeithas, ac mae ymwneud â'n llywodraethu corfforaethol fel ymddiriedolwr yn un ffordd debyg. Eleni mae gennym ddwy swydd wag ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr sydd ar gael i staff neu wirfoddolwyr sydd wedi'u henwebu gan y mudiadau sy'n aelodau o CTA. Penodir ymddiriedolwyr am dymor pedair blynedd a gallan nhw barhau am ail dymor pedair blynedd gyda chymeradwyaeth y Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Fel ymddiriedolwyr mae'n rhaid inni weithio o fewn ffiniau pendant. Mae'r safonau a'r ymddygiad y mae'n rhaid inni eu dangos wedi'u nodi yn y gyfraith ac arferion da gan y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau ac rydyn ni'n adolygu ein perfformiad fel bwrdd yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn cyflenwi ac yn ychwanegu gwerth at waith ein tîm o staff.

Mae ein hymddiriedolwyr yn dod â phrofiad a chefnidiroedd helaeth ond, ar ôl inni gael ein dewis, rhaid inni i gyd ganolbwyntio ar fod yn hyrwyddwyr angerddol ac effeithiol dros weledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd CTA uwchlaw pob dim arall.

Mae cryfder y bwrdd yn deillio o'r profiad, y sgiliau a'r rhinweddau eraill sydd gan ei aelodau. Mae'n bwysig bod ein bwrdd yn adlewyrchu ystod y lleoliadau a'r cyd-destunau lle mae ein haelodau'n gweithio, yn ogystal ag amrywiaeth ein cymunedau. Rydyn ni'n awyddus i wella ein hamrywiaeth ac felly rydyn ni'n annog yn frwd geisiadau gan ymgeiswyr sy'n bobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig.

Mae cludiant cymunedol wedi wynebu heriau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf yn dilyn diwygiadau arfaethedig yr Adran Drafnidiaeth i'r ffordd y caiff ein Hawlenni eu defnyddio. Ar eu ffurf bresennol, bydd hyn yn cael effaith ddinistriol ar lawer o wasanaethau a bywydau'r bobl sy'n dibynnu arnyn nhw. Fel bwrdd rydyn ni wedi bod yn ymwybodol o bryderon ein haelodau drwyddi draw ac rydyn ni wedi cefnogi'r tîm i hyrwyddo ymgyrch angerddol ac egwyddorol sydd wedi codi'r mater hwn i frig yr agenda gwleidyddol. Drwy ein harweiniad, cafwyd lefelau o ymatebion nas gwelwyd o'r blaen i ddau ymgyngoriad pwysig, gan y Pwyllgor Dethol Trafnidiaeth ac yna gan y Llywodraeth. Yn dilyn ein gwaith ychwanegol yn codi proffil yn Llywodraeth y DU, llunion ni'r Grŵp Seneddol Trawsbleidiol cyntaf erioed ar Gludiant Cymunedol ac mewn dadl yn Neuadd San Steffan, gwelwyd cefnogaeth drawsbleidiol unfrydol i'r sector. Dydy'r her ddim wedi diflannu ond rydyn ni'n dal i fod mor benderfynol ag erioed o gael setliad gwell i'r gwasanaethau hanfodol ac i'r asedau cymunedol unigryw hyn.

Gobeithio, drwy ddarllen y ddogfen hon, y cewch chi eich ysbrydoli i eisiau ymuno. Os teimlwch fod gennych gymwysterau i ychwanegu hyd yn oed mwy o gryfder at ein bwrdd, edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthyhych.



Susan Evans | Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

Y Gymdeithas Cludiant Cymunedol

Elusen genedlaethol a chymdeithas o aelodau yw'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol sy'n arwain ac yn cynorthwyo miloedd o elusennau a grwpiau cymunedol lleol ledled y DU sy'n darparu gwasanaethau cludiant sy'n cyflawni diben cymdeithasol a budd cymunedol.

Rydyn ni'n ymwneud â chludiant hygyrch a chynhwysol. Ein gweledigaeth yw byd lle gall pobl lunio a chreu eu hatebion cludiant hygyrch a chynhwysol eu hunain a'n cenhadaeth yw cyflawni hyn drwy hyrwyddo cludiant hygyrch a chynhwysol, cysylltu pobl a syniadau a thrwy gryfhau ein haelodau a chodi safonau.

Rydyn ni'n elusen ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Rydwn ni'n cael ein llywodraethu gan fwrdd ymddiriedolwyr sy'n cynnwys wyth o bobl sydd wedi'u dewis o blith aelodau CTA a hyd at dri ymddiriedolwr arall wedi'u cyfethol o gefndiroedd gwahanol sy'n dod ag amrywiaeth o brofiad i gyfoethogi'r cyfraniad y maen nhw'n ei wneud.

Mae gennym 21 aelod o staff sy'n gweithio ledled y DU. Mae ein swyddfa ganolog ym Manceinion gyda swyddfeydd hefyd yn Abertawe, y Rhyl, Caeredin a Belfast.

Rydyn ni'n ymwneud â chludiant hygyrch a chynhwysol:

Ein gweledigaeth yw byd lle gall pobl ffurfio a llunio eu hatebion cludiant hygyrch a chynhwysol eu hunain.

Ein cenhadaeth yw gwireddu'r weledigaeth hon drwy dair blaenoriaeth strategol.

Y rhain yw:

Hyrwyddo cludiant hygyrch a chynhwysol

Ni fydd awdurdod pennaf y DU ar wneud i gludiant fod yn fwy hygyrch a chynhwysol er budd y cymunedau y mae ein haelodau'n eu gwasanaethu.

Cysylltu pobl a syniadau

Byddwn yn cael ein cydnabod fel prif ganolbwynt y DU ar gyfer creu a chyfnewid gwybodaeth, syniadau ac arloesedd o ran gwella hygyrchedd a chynhwysiant cludiant.

Cryfhau ein haelodau a chodi safonau

Byddwn yn gweithio gyda'n haelodau i hyrwyddo arferion o safon uchel ym maes cludiant cymunedol ac yn eu cynorthwyo i gyflwyno gwasanaethau rhagorol.

Pump o werthoedd sy'n llunio sut rydyn ni'n gweithio

Rydyn ni'n rhoi ein haelodau'n gyntaf

Rydyn ni'n canolbwyntio ar gynorthwyo ein haelodau i wneud y gwahaniaeth mwyaf posibl yn eu cymunedau. Rydyn ni'n eu hannog nhw i deimlo'n rhan o fudiad amrywiol sydd wedi'i rwymo gan bwrpas a gwerthoedd cyffredin, fel y gallan nhw gael effaith ar faterion na all unrhyw fudiad eu datrys ar ei ben ei hun. Ein nod yw gwneud i beth bynnag rydyn ni'n ei ddweud a'i wneud fod yn berthnasol ac yn ymatebol i brofiadau bob dydd, i anghenion ac i ddyheadau ein haelodau a'u defnyddwyr gwasanaeth.

Rydyn ni'n arwain gydag awdurdod a chyfrifoldeb

Rydyn ni'n credu mai'r ffordd orau o gyflawni ein rôl yn arwain fel llais cludiant cymunedol yw drwy herio ac ysbrydoli'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw. Rydyn ni'n arwain y ffordd o ran hyrwyddo hygredd cludiant cymunedol a'r ymddiriedaeth ynddo. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod yr hyn rydyn ni'n ei ddweud yn seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi'i chasglu drwy ddulliau cadarn a chredadwy.

Rydyn ni'n blaenoriaethu symudedd a hygyrchedd

Rydyn ni'n sefyll dros y bobl sy'n dibynnu fwyaf ar gludiant cymunedol i'w galluogi i fwynhau ansawdd bywyd da. Rydyn ni'n rhannu'r ymdeimlad dwfn hwn o gyfrifoldeb ac angerdd â'n haelodau ac yn gweithio gyda nhw i sicrhau bod cludiant cymunedol, ar ba ffurf bynnag, wedi'i wreiddio mewn ymateb i anghenion mewn cymunedau lleol, gan roi blaenoriaeth i'r rhai nad yw gwasanaethau eraill yn eu bodloni.

Rydyn ni'n hyrwyddo gwirfoddoli

Rydyn ni'n dathlu'r lefelau uchel o ymwneud gan wirfoddolwyr yn y mudiad cludiant cymunedol ac yn codi llais dros bwysigrwyd a manteision cynnwys gwirfoddolwyr. Dydyn ni ddim yn credu bod di-dâl yn golygu amhroffesiynol a byddwn ni bob amser yn herio canfyddiadau negyddol am werth a chyfraniad gwirfoddolwyr.

Rydyn ni'n uchelgeisiol

Tîm bach ydyn ni sydd ag uchelgais mawr ar ran cludiant cymunedol. Rydyn ni'n chwilfrydig, yn greadigol ac yn agored i syniadau newydd. Rydyn ni'n rhoi cynnig ar bethau newydd ac yn dysgu ohonyn nhw ac yn annog pawb rydyn ni'n cydweithio â nhw i wneud yr un fath. Rydyn ni'n ceisio adborth ac yn ei ddefnyddio i gyfoethogi ansawdd y profiad o weithio gyda ni.

Rôl Ymddiriedolwr CTA

Gweithgareddau ac ymrwymïadau amser

- Pedwar prif gyfarfod y bwrdd y flwyddyn, bob yn ail ym Manceinion a Llundain. Fel arfer mae'r rhain tua phedair awr o hyd ac yn dechrau ddiwedd y bore fel bod ymddiriedolwyr yn gallu teithio ar y diwrnod.
- Cymryd rhan mewn is-bwyllgorau, a all ychwanegu dau i bedwar diwrnod, yn dibynnu ar y pwyllgor y byddwch chi'n ymuno ag ef.
- Cymryd rhan mewn gweithgoreu ad-hoc os bydd angen.
- Craffu ar bapurau cyn y cyfarfodydd.
- Swydd wirfoddol yw bod yn Ymddiriedolwr felly does dim tâl neu iawndal i gyflogwyr am roi amser o'r gwaith i staff fynychu cyfarfodydd a gweithgareddau eraill. Fodd bynnag, bydd CTA yn talu treuliau rhesymol fel costau teithio.

Aelodau presennol y bwrdd

Susan Evans – Cadeirydd

Suzanne Leighton

Paul Appelbe - Trysorydd

Paddy McEldowney

Joe Hannett

Rachel Milne

Peter Hardy

Lawrence Wilson – Dirprwy Gadeirydd

Chris Kutesco

Disgrifiad o'r rôl

Mae cyfrifoldebau ymddiriedolwyr fel a ganlyn:

1. Llunio gweledigaeth, gwerthoedd a strategaeth dymor hir CTA a'u hadolygu'n rheolaidd, yn ogystal â'r polisiau i gyflawni hyn.
2. Gosod a chytuno ar dargedau ar lefel uchel a gwerthuso'r perfformiad yn eu herbyn nhw.
3. Sicrhau bod yr elusen a'i hasedau'n cael ei gweinyddu'n effeithiol er budd buddiolwyr cyfredol, potensial ac i'r dyfodol a buddsoddi arian CTA yn briodol.
4. Sicrhau system hollol effeithiol a phriodol ar gyfer recriwtio, penodi a gwerthuso gwaith a gweithgareddau'r Prif Weithredwr a, lle y bo'n berthnasol, aelodau eraill yr Uwch Dîm Rheoli a chefnogi'r Cadeirydd wrth fod yn rheolwr llinell y Prif Weithredwr.

5. Deall a derbyn dyletswyddau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd cyfreithiol bod yn Ymddiriedolwr a sicrhau ar yr un pryd bod CTA yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddio a statudol.
6. Sicrhau system effeithiol a phriodol o reoli risgiau.
7. Cynnal rheolaeth ariannol gadarn ar adnoddau'r elusen er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol CTA.
8. Bod yn gyfarwydd â dogfennau llywodraethu CTA, sicrhau bod cydymffurfio â nhw a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gan sicrhau system llywodraethu effeithiol a thryloyw a bod yr elusen yn dilyn ei hamcanion fel y'u diffinnir yn ei dogfennau llywodraethu.
9. Hyrwyddo enw da a gwerthoedd y mudiad a sicrhau bod yr elusen yn cyflawni budd cyhoeddus fel y'i diffinnir yn ei hamcanion elusennol.
10. Sicrhau bod CTA yn rheoli ac yn parhau i ddatblygu ei pherthnasoedd allanol, gan godi ei phroffil, a chefnogi twf ei heffaith yn unol â hyn.
11. Mynychu cyfarfodydd bwrdd, craffu ar bapurau'r bwrdd, gofyn cwestiynau i aelodau'r uwch dîm rheoli, cyfrannu i drafodaeth y bwrdd, canolbwytio ar faterion allweddol a derbyn penderfyniadau cyd-gynghorol.
12. Defnyddio unrhyw sgiliau, gwybodaeth a phrofiad penodol a all fod ganddynt i helpu'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Gall hyn gynnwys:
 - Cydlynu â'r Prif Weithredwr ac aelodau'r Uwch Dîm Rheoli fel sy'n briodol.
 - Gweithredu fel llysgennad i CTA, gan ddefnyddio a datblygu cysylltiadau a rhwydweithiau personol.
 - Rhoi arweiniad ar fentrau newydd.
 - Materion eraill lle mae gan yr Ymddiriedolwr arbenigedd penodol.

Nodweddion er mwyn cyflawni cyfrifoldebau ymddiriedolwyr

1. Record o gyflawni yn eu maes eu hunain y mae modd ei ddangos
2. Profiad diweddar o weithio ar lefel strategol a gallu i bennu gweledigaeth, nodau ac amcanion strategol.
3. Profiad blaenorol o fod yn ymddiriedolwr neu'n gyfarwyddwr anweithredol (dymunol).
4. Ymwybyddiaeth ariannol dda a gallu i gymhwyso hon mewn cyd-destun strategol.
5. Ymrwymiad i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau cyd-gynghorol.
6. Dealltwriaeth dda o'r ffin rhwng llywodraethu a rheolaeth ac arweinyddiaeth weithredol.
7. Gallu i ymrwymo'r amser sydd ei angen.
8. Parodrwydd i dynnu ar gysylltiadau a rhwydweithiau proffesiynol er budd CTA.

9. Ymrwymiad i weledigaeth, gwerthoedd a chenhadaeth CTA.
10. Gallu i deithio i gyfarfodydd mewn gwahanol rannau o'r DU gydag ambell arhosiad dros nos.

Y broses recriwtio

Lleoedd gwag

Mae wyth lle ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr wedi'u cadw i bobl sydd wedi'u henwebu gan fudiadau sy'n aelodau o Gymdeithas Cludiant Cymunedol y DU. Rydyn ni'n bwriadu llenwi dau le gwag ar gyfer y categori hwn o ymddiriedolwr yn y broses ddethol hon. Penodir ymddiriedolwyr am dymor pedair blynedd a gallan nhw barhau am ail dymor pedair blynedd gyda chymeradwyaeth y Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Mae CTA wedi ymrwymo i gael Bwrdd Ymddiriedolwyr amrywiol ac rydyn ni'n annog yn frwd geisiadau gan ymgeiswyr sy'n ddu ac o leiafrifoedd ethnig.

Pwy sy'n gymwys

Er mwyn i'ch enwebiad fod yn gynnwys, dylech chi fod yn ymwneud mewn rhyw ffordd â'r mudiad sy'n aelod sy'n eich enwebu chi; gallai hyn fod fel aelod o staff, ymddiriedolwr neu wirfoddolwr rheolaidd.

Yn eich cais gofynnir ichi gadarnhau eich cysylltiad â'r mudiad sy'n aelod o CTA a chynnwys rhywun sy'n aelod o'r mudiad hwnnw fel canolwr.

Os mai chi yw'r prif weithredwr neu'r rheolwr uchaf, yn nodweddiadol eich canolwr fyddai cadeirydd y bwrdd ymddiriedolwyr neu gorff cyfatebol ar gyfer strwythur cyfreithiol eich mudiad. Os ydych chi'n aelod arall o staff neu'n wirfoddolwr, dylai eich canolwr fod yn brif weithredwr neu'n aelod uchaf o staff.

Bydd unigolion yn cael eu hatal rhag bod yn Ymddiriedolwr lle:

- Mae ganddyn nhw ddedfryd heb ei threulio am drosedd sy'n ymwneud ag anonestrwydd neu dwyll.
- Maen nhw wedi cael eu datgan yn fethdalwr (neu'n atebol i gyfyngiadau neu orchymyn interim methdaliad).
- Mae ganddyn nhw drefniant gwirfoddol unigol (IVA) i dalu dyledion gyda chredydwr.
- Maen nhw wedi cael eu gwahardd rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni.
- Maen nhw'n atebol i orchymyn a wnaed o dan adran 429(2) Deddf Ansofedd 1986.
- Maen nhw wedi cael eu diswyddo fel ymddiriedolwr gan CTA y DU, rheoleiddiwr elusennau'r Alban neu'r Uchel Lys oherwydd camymddwyn neu gamreoli.

Dethol ymgeiswyr

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu yn is-bwyllgor o Fwrdd Ymddiriedolwyr CTA ac mae'n gyfrifol am recriwtio ymddiriedolwyr. Ei waith yw dewis grŵp o ymgeiswyr y mae'n dymuno eu hargymell i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr fel ymgeiswyr i'r bwrdd ymddiriedolwyr.

Os bydd y nifer o ymgeiswyr a gaiff eu hargymell i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn uwch na nifer y lleoedd gwag, cynhelir pleidlais ymysg yr aelodau.

Os bydd nifer yr ymgeiswyr a gaiff eu hargymell i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cyfateb i nifer y lleoedd gwag neu'n llai nag ef, yna gofynnir i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol gadarnhau dethol yr ymgeiswyr hynny.

Dyddiadau allweddol

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	dydd Gwener 31 Mai 2019
Cadarnhau'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer	erbyn dydd Gwener 7 Mehefin 2019
Cyfweliadau â'r Pwyllgor Llywodraethu yn Llundain	11 neu 17 Gorffennaf 2019
Cadarnhau'r rhestr fer derfynol ar gyfer cadarnhau neu bleidlais	dydd Mercher 25 Medi 2019
Cyhoeddi pwy yw'r ymddiriedolwyr newydd yn y CCB	dydd Mawrth 12 Tachwedd 2019

Sut mae ymgeisio

Os ydych chi o'r farn bod gennych y sgiliau, yr amser a'r ymrwymiad i wneud cyfraniad gwerthfawr i waith CTA drwy ymuno â'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, mae tri pheth y bydd angen ichi eu cyflwyno:

- CV heb fod yn fwy na phedair ochr A4. Gallwch ddarllen awgrymiadau NCVO ar gyfer CV effeithiol yn <https://bit.ly/2XZldwn>. (Dydy eu harweiniad ddim wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer ceisiadau gan ymddiriedolwyr, ond mae'r egwyddorion allweddol yn berthnasol.)
- Ffurflen gais wedi'i llenwi (ar gael i'w lawrlwytho o wefan CTA).
- Ffurflen monitro cydraddoldeb wedi'i llenwi (ar gael i'w lawrlwytho, fel uchod).

Rhaid cyflwyno pob dogfen yn electronig ac fel atodiadau mewn ebost wedi'i anfon at maxine@ctauk.org erbyn y dyddiad cau, sef hanner dydd, ddydd Gwener 31 Mai 2019.

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y swydd neu pe hoffech ragor o wybodaeth, ffoniwch 0161 351 1475 neu ebostiwch maxine@ctauk.org yn y lle cyntaf. Bydd un o'r tîm yn trefnu i'r Prif Weithredwr neu'r Cadeirydd gysylltu â chi.